# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION CYFARFOD 5ed MAWRTH 2019

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Troedyraur ar nos Fawrth, 5ed Mawrth yn Neuadd Ffostrasol.

**Yn bresennol**
Cyng Julie Davies
Cyng Ceri Jones
Cyng Teifi Evans
Cyng Evan John Jones
Cyng Mark Davies
Cyng Maldwyn Lewis
Cyng Roger Davies
Cyng Llŷr Evans
Cyng Emyr Jones
Cyng Owenna Davies

**Ymddiheuriadau** Cyng Eirian James

**Clerc** Eleanor Colbourne

| Eitem agenda | Gweithredu | Gan bwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| **1. Derbyn ymddiheuriadau** | Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng Eirian James sy'n dal yng Nghartref Hafod, Aberteifi. | | |
| **2. Cadarnhau cofnodion** | Cadarnhawyd gan y Cyng Julie Davies ac eiliwyd gan y Cyng Mark Davies fod y cofnodion yn gywir. | | |
| **3. Datgan diddordeb** | Datgelodd y canlynol – Cyng Roger Davies, Cyng Maldwyn Lewis a'r Cyng Emyr Jones, ddiddordeb mewn un eitem ar yr agenda sef cais cynllunio A190081 – Pengelli Uchaf, Brongest – proposed development of one affordable dwelling.<br>Arwyddodd y tri y ffurflen bwrpasol. | | |
| **4. Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion** | Yr unig wybodaeth a godwyd o'r cofnodion oedd y mater o golau stryd ym Mhrongest. Roedd y clerc wedi derbyn ebost oddi wrth Mr Simon Bray o'r Cyngor Sir yn dweud eu bod wedi bod allan ar y safle ar ddechrau mis Chwefror ond roedd yn barod i gwrdd a cynghorwyr ar y 7fed o Fawrth. Penderfynwyd i gwrdd a Mr Bray am 4 o'r gloch ar y safle. Y clerc i hysbysu'r cyngor sir. | Y Clerc | Ar unwaith |
| **5. Materion y Cynghorydd Sir** | Tynnodd y Cynghorydd Sir sylw'r cyngor cymuned fod treth y cyngor yn debygol o fynd i fyny 7%. | | |
| **6. Gohebiaeth** | Datganiad yr Awdurdod Lleol ar Cynllun Gwella Hawliau Tramwy – hysbyswyd yr aelodau fod copi o'r ddogfen gyda'r clerc. | | |
| **7. Ariannol** | Talwyd y sieciau canlynol:-<br>• HMRC - £50.00<br>• Tâl y Clerc - £200.00<br>• Llinos Haf Jones (cyfieithu) - £57.30<br>• The Solutions Factory - £750.00<br>• Neuadd Ffostrasol - £150.00<br>• Clwb Bowlio Rhydlewis - £150.00<br>• Neuadd Coedybryn - £150.00<br>• C.Ff.I. Troedyrau - £150.00<br>• Eisteddfod Genedlaethol 2020 – Apél Cymuned | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Troedyraur- £150.00<br>Cyn anfon y sieciau, rhaid trosglwyddo £3000.00 o'r cyfrif cadw i'r cyfrif rhedegol. Y clerc i wneud hyn. | Y Clerc | Ar unwaith |
| **8. Cynllunio** | A190081 – Pengelli Uchaf, Brongest – proposed development of one affordable dwelling -<br><br>Mae Cyngor Cymuned Troedyraur yn deall safbwynt Mr Monk ac yn cytuno gyda'I rhesymau dros symud yn agosach at y fferm. Byddai'n well gan y Cyngor Cymuned bod y tŷ yn agosach at y fferm a gofynnir i'r ymgeisydd ystyried safle agosach. Cydnabyddir sylwadau manwl Mr Richards, ond er hynny mae'r Cyngor Cymuned yn cytuno gyda'r cais.<br><br>Cyn trafod y cais yma, mi adawodd y Cyng Roger Davies, Cyng Emyr Jones a'r Cyng Maldwyn Lewis yr ystafell gan fod ganddynt ddiddordeb yn y mater yma. | Y Clerc | Ar unwaith |
| **9. Materion Ardal** | Fydd yr eitem yma ar yr agenda bob mis.<br>• Nodwyd fod llinellau melyn wedi cael ei wneud yng Nghoedybryn<br>• Angen i bawb i wirio ei cymunedau i weld a oes unrhywbeth angen ei wneud<br>• Angen cysylltu gyda'r adran briffyrdd ynglŷn â cyffordd C1170 gan ddweud ein bod yn pryderi ynglŷn â'r cyflymder ar yr ffordd B4571. Nodi hefyd fod damwain wedi ar y ffordd yn ddiweddar. Y Cyng Llŷr Evans i anfon llun at y clerc i'w gynnwys yn y llythyr | Y Clerc a'r Cyng Llŷr Evans | Cyn y cyfarfod nesaf |
| **10. Sbwriel yn Ffostrasol** | Hysbyswyd y cyngor cymuned fod yna lawer o sbwriel yn cael ei gadael ar y ffordd o sgwar Ffostrasol tuag at Plwmp. Penderfynwyd fod y Cyng Maldwyn Lewis yn siarad gyda'r Cyng Gareth Lloyd (Cyngor Cymuned Llandysilio) i drafod y posibilrwydd o weithio gyda'n gilydd I ddatrys y broblem yma.<br>Nododd y Cyng Owenna Davies fod ymgyrch gan Ferched y Wawr eleni i gasglu sbwriel, felly fydd yn trefnu dyddiad i gasglu sbwriel yn Ffostrasol a Chroeslan. | Cyng Maldwyn Lewis<br><br>Y Cadeirydd | Cyn y cyfarfod nesaf<br><br>Cyn y cyfarfod nesaf |
| **11. Cyflymder Ffostrasol** | Roedd gofid am gyflymder yn Ffostrasol. Penderfynwyd ein bod yn anfon llythyr eto at Swyddog Diogelu Ffyrdd y Cyngor Sir yn nodi ein pryderon. | Y Clerc a'r Cadeirydd | Ar Unwaith |
| **12. Ffurflenni Cais ar gyfer ceisiadau ariannol 2019-2020** | Trafod y ffurflenni cais. O hyn allan, pan fydd cais yn dod i fewn, fydd angen i'r clerc i anfon y ffurflen allan at y gymdeithas. Y clerc hefyd i osod copi o'r ffurflen gais a'r dyddiad cau ar y wefan. | Y Clerc | Pan fydd angen |
| **13. Cadwyn y Cadeirydd** | Derbyniodd y clerc pris am rhoi mwy o blaciau ar y gadwyn oddi wrth un cwmni. Hysbyswyd yr aelodau o'r gwahanol brisiau a dywedwyd wrthynt am feddwl erbyn y cyfarfod nesaf o'r ffordd ymlaen. Hefyd cael efallai gofyn i gwmniau eraill am brisiau. | Y Clerc | Erbyn y cyfarfod nesaf |
| **14. Adborth Hyfforddiant** | Adroddodd y Cyng Mark Davies nôl ar yr hyfforddiant y bu ef, y Clerc a'r Cyng Julie Davies ar yn ddiweddar ynglŷn â'r côd ymddygiad. Nodwyd fod yna ddwy ffurflen i nodi 'Datgan diddordeb'. Penderfynwyd anfon copi o un ffurflen allan i bawb er mwyn iddynt ei darllen cyn y cyfarfod nesaf. Y Cyng Julie Davies i anfon copi o'r ebost ymlaen at y clerc. | Y Clerc a'r Cyng Julie Davies | Ar unwaith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **15. Diweddariad hyfforddiant diffribiliwr** | Roedd y clerc heb dderbyn dyddiad gan Emyr Jones ond roedd Mr Jones wedi addo rhoi dyddiad i'r clerc yn yr wythnos neu ddwy nesaf. | Y Clerc | Cyn y cyfarfod nesaf |
| **16. Eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf** | Materion Ardal<br>Cadwyn y Cadeirydd<br>Datgan Diddordeb<br>Hyfforddiant Diffribiliwr | | |
| **17. Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf** | 2il Ebrill, 2019 am 7.30 y.h. yn Neuadd Coedybryn | | |

Llofnod (Cadeirydd) ________________________________

Llofnod (Is-Gadeirydd) ________________________________